Therapi Iaith a Lleferydd i Blant
Children's Speech & Language Therapy
02921 836585

# Lleihau Rhwystredigaeth

Pan fo plant yn dysgu siarad, gall fod yn anodd weithiau i wybod beth maen nhw'n ceisio ei ddweud wrthon ni.  Gall hyn arwain at deimladau o rwystredigaeth i chi a'ch plentyn.  Mae canolbwyntio ar y ffyrdd mae'ch plentyn eisoes yn cyfathrebu yn gallu bod o gymorth.

## Cyngor Da

- **Chwiliwch am yr holl ffyrdd y gall eich plentyn fod yn cyfathrebu eisoes**. Mae cyfathrebu'n fwy na geiriau yn unig. Gall eich plentyn ddefnyddio syllu, gweithredoedd, pwyntio, mynegiant yr wyneb neu synau i fynegi ei hun.
- **Bod wyneb yn wyneb.** Bydd bod lle gallwch chi weld wynebau eich gilydd yn hawdd yn eich helpu i sylwi ar beth mae'ch plentyn yn edrych arno ac yn meddwl amdano. Bydd eich plentyn hefyd yn gwybod eich bod chi'n gwrando arno ac yn ceisio ei ddeall.
- **Ymatebwch i *beth* mae eich plentyn yn ei ddweud, nid *sut* mae'n ei ddweud.** Os ydych chi wedi gallu deall (neu ddyfalu) beth mae'ch plentyn yn ei ddweud wrthych chi, ymatebwch. Peidiwch ag esgus nad ydych wedi deall.
- **Ceisiwch leihau'r pwysau.** Efallai na fydd eich plentyn yn barod i ddweud llawer o eiriau eto. Bydd gofyn gormod o gwestiynau neu ofyn i'ch plentyn ailadrodd geiriau ar eich ôl yn gallu gwneud iddo deimlo dan bwysau ac yn gallu arwain at rwystredigaeth bellach. Gallwch ddefnyddio datganiadau syml e.e. *'Mae hwnna'n edrych yn hwyl'* neu *'Dest ti o hyd i'r car'* ac ati i ddangos i'ch plentyn bod gennych ddiddordeb yn yr hyn mae'n ei wneud neu'n ei deimlo.
- **Mwynhewch!** Peidiwch â theimlo'ch bod chi'n gorfod 'dysgu' eich plentyn i siarad. Y ffordd orau i'ch plentyn ddysgu yw trwy weithgareddau naturiol pob dydd, yn enwedig os ydynt yn hwyl. Os yw'r gweithgaredd yn hwyl, mae'ch plentyn yn fwy tebygol o chwarae am gyfnod hirach a fydd yn cynyddu'r cyfleoedd i ymarfer rhyngweithio.



*Cardiff and Vale University Health Board is the operational name of Cardiff and Vale University Local Health Board.*
*Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yw enw gweithredol Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Caerdydd a'r Fro.*